Carwyn Jones AC/AM

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
Counsel General and Leader of the House

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

6 Rhagfyr 2007

Annwyl Dafydd

RHEOLIADAU CYFYNGIADAU ALLFORIO A SYMUD (CLWY'R TRAED A'R GENAU) (RHIF 2) (CYMRU) 2007

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi y bydd yn rhaid torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn dod â'r Rheoliadau Cyfyngiadau Allforio a Symud (Clwy'r Traed a'r Genau) (Rhif 2) (Cymru) 2007 i rym yng Nghymru fel yng ngwledydd eraill Prydain. Cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud am 6:05 y.h.ar 5 Rhagfyr 2007, daethant i rym am 6:20 y.h. ar 5 Rhagfyr 2007 a chawsant eu gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Rhagfyr 2007.

Bydd y Rheoliadau'n rhoi Penderfyniad y Comisiwn a fabwysiadwyd ar 5 Rhagfyr 2007 ar waith yng Nghymru, i ddiwygio Penderfyniadau 2007/746/EC, 2007/709/EC, 2007/608/EC a 2007/554/EC y Comisiwn. Prif effaith y Rheoliadau fydd ymestyn yr ardal heb gyfyngiadau allforio o ran clwy'r traed a'r genau a restrwyd yn Atodiad 11 o'r Penderfyniad. Golyga hyn fod rhai cyfyngiadau symud ar gyfer anifeiliaid a allai gael clwy'r traed a'r genau a chynhyrchion yr anifeiliaid hynny wedi eu llacio.

Mae'r Rheoliadau'n parhau i reoleiddio agweddau ar fewnforio ac allforio anifeiliaid byw a'u cynhyrchion. Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn drosedd allforio unrhyw beth y mae'r Rheoliadau'n gwahardd ei allforio.

Cytundebau rhwng y gwledydd dan sylw sy'n penderfynu ar yr amodau ar gyfer allforio i Drydedd Wlad, felly bydd unrhyw beth a allforir o Gymru o dan y Rheoliadau hyn yn gorfod bodloni hefyd amodau mewnforio'r drydedd wlad sy'n mewnforio. Nid yw'r rhan fwyaf o wledydd yn barod i dderbyn cynnyrch o'r DU ar hyn o bryd.

Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn drosedd hefyd i bobl fynd ag unrhyw rai o'r cynhyrchion y mae'r Rheoliadau'n ymwneud â nhw allan o Gymru yn eu bagiau personol. Mae gwledydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn * Tel 029 2082 8055
Ffacs * Fax 029 2089 8475
Gohebiaeth.Carwyn.Jones@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

eraill yr UE yn cymryd camau i rwystro pobl rhag mewnforio cynhyrchion o'r DU yn eu bagiau personol.

Mae'r Rheoliadau'n llacio rhai o'r cyfyngiadau ar symud anifeiliaid a allai gael clwy'r traed a'r genau a chynhyrchion yr anifeiliaid hynny. Mae angen pwerau gorfodi ar frys er mwyn gallu gorfodi'r newidiadau hyn. Bydd angen i'r Rheoliadau allu dod i rym ar unwaith gan i Benderfyniad y Comisiwn gael ei fabwysiadu ar 5 Rhagfyr 2007. Disgwylir i Reoliadau cyfatebol ddod i rym yn Lloegr ac yn yr Alban ar 5 Rhagfyr 2007. Nid oedd cyfyngiadau ar fewnforion ac allforion yng Ngogledd Iwerddon. Felly, er mwyn sicrhau bod y Rheoliadau'n cael eu gorfodi yn yr un ffordd ledled y DU, bydd angen torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn i'r Rheoliadau allu dod i rym ar unwaith.

Oherwydd maint y Rheoliadau ac am fod angen eu rhoi ar waith yng Nghymru ar unwaith, mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi penderfynu nad yw'n ymarferol resymol iddynt allu cael eu gwneud yn ddwyieithog yn yr amser hwnnw. Dylai cyfieithiad Cymraeg o'r Rheoliadau, serch hynny, fod yn barod ymhen pythefnos i dair wythnos ar ôl gwneud yr Offeryn Statudol.

Nid oes ymgynghoriad nac Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u cynnal oherwydd y prinder amser cyn rhoi'r Offeryn ar waith. Er hynny, mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac mae hwn, ynghyd â'r Rheoliadau, wedi'u gosod yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Dr Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth a Chris Reading, Clerc i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.